

# Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Nodiadau Cyfarfod : 07.01.2014

Neuadd Goffa 8.00 y.h

**Presennol : Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Elfed Davies, Wyn Thomas, Malcolm Howells, Arwel Nicholas, Cyngorydd Sir, Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau : Carolyn Smethurst**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Ymweliad Richard Workman	<p><b>Sylwadau gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Gâr:</b> £20 – 25 miliwn o brinder, felly rhagor o doriadau, o gwmpas £7 m dros y 3 mlynedd nesaf. Angen blaenoriaethu'r gwasanaethau angenrheidiol. Eisioes wedi cyfeiro at Gyfleusterau Cyhoeddus. Bwriad y Sir yw trosglwyddo eiddo nôl I'r Cymunedau sef meusydd chwarae a Neuaddau. Cymunedau yn medru ceisio am grantiau, yn gallu defnyddio gwirfoddolwyr a phenderfynu dyfodol yr asedau.</p> <p><b>Trafodaeth:</b> AN – dim ond y Cyfleusterau oedd yn eiddo I'r Sir WT – Gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am y Cae Chwarae (Gadawyd allan sylwadau am faterion amherthnasol; e.e. am Llanelli ayyb) AN – er fod y Sir wedi trosglwyddo'r Tai Bach I'r Gymuned heb dâl, beth am: Treth Cyngor? Defnydd yr Adeilad? RW – angen trafod manylion gyda Stephen Morgan ond yr ateb mwyaf tebygol fyddai bod modd gwneud defnydd amgen o'r Cyfleusterau. DJ – gofynnodd y Gymuned i'r Sir am arwyddion arafu sy'n goleuo; pa obaith sydd I ni gael ein dymuniad? RW – rhestr o tua 200 I wneud a chyflawnir 10/ann. Edrych I weld ble mae Llanpumsaint ar y rhestr. Mae modd I'r Gymuned gyfrannu tuag at y gost er mwyn cyflymu'r broses WT – Trafodwyd creu ardal o gyflymdra 20mya o gwmpas yr Ysgol a'r Maes Chwarae gyda'r Heddlu a'r Gymuned.</p> <p>.</p> <p>Materion heb eu datrys o hyd – Ty Nant a'r llwyn, culvert tu flaen I Darfryn, a chyflwr yr heol ar Rhiw Graig Gadawodd RW y Cyfarfod am 8.30</p>	
Cofnodion	Cynnigwyd yn gywir WT; eiliwyd DD	
Materion yn codi	<p><b>Cronfa Jenny Eirian:</b> Elfyn Lewis wedi derbyn llythyr oddi wrth y Banc yn dweud bod cyfrif y Gronfa yn cael ei rhewi. WT yn gwneud trefniadau I drosglwyddo llofnodyddion. Ar hyn o bryd y llofnodyddion yw Elfyn Lewis a Dorrien Thomas. Trafodir y mater ymhellach yng nghyfarfod Mis Chwefror.</p>	

	<p><b>Cyfethol Cynghorydd:</b> tri unigolyn wedi cynnig eu gwasanaeth; Mike Poston, Pamela Jones a Lyn Thomas. Yn dilyn trafodaeth, cynnigodd DD Pamela Jones ac eiliwyd y cynnig gan AN. Cytunwyd yn unfrydol I gyfethol Pamela Jones</p> <p><b>Carthion a llygredd yn Gwili Terrace</b> dros yr Wyl: rhoi gwybod I Richard Workman gyntaf ac yna yr NRW.</p> <p><b>Arwyddion ffordd:</b> arwyddbost ger bont y Railwé heb ei osod yn gywir. Angen I'r arwyddion fod 6' 10" yn uwch na'r ddaear, a dim ond 6' 3" yw'r arwydd isaf. Cyngor Sir I gywiro'r diffyg</p> <p><b>Praesept:</b> Cytunwyd cadw'r taliad yr un a llynedd sef £22.00. Cynigiwyd AN, eiliwyd DD.</p> <p><b>Parti yng Ngardd Buckingham:</b> Un Llais Cymru wedi derbyn gwahoddiad I 30 o Gadeiryddion a chyn Gadeiryddion I'r digwyddiad. Cynigiwyd y dylai MH a CS gynrychioli Llanpumsaint pe bai yna gyfle.</p> <p><b>Cyngor Cymuned Conwil:</b> cais I ofyn ar y cyd I Gyngor y Sir gryfhau'r bont gerllaw Melin Wlân Glan yr Ynys. Cytunwyd I gefnogi'r cais</p> <p><b>Walkers are Welcome:</b> cais I Gyngor y Gymuned gymeradwyo awydd Clwb Cerdded Llanpumsaint ymuno gyda'r cynllun a fyddai'n gyfle I wahodd Clybiau Cerdded arall I fwynhau llwybrau cyhoeddus y gymuned. Barn y Cyngorwyr oedd na allent gymeradwyo'r cais.</p>	<p>Clerc</p> <p>Clerc</p> <p>Clerc</p>
Cynllunio	Glancorwg; Melin wynt. Dim sylwadau	
Materion Ariannol	Talu'r Cyfieithydd - £20.00 - cytunwyd Talu'r Clerc; cyflog 5 mis - £719.00 - cytunwyd	
UFA	<p>AN – heol gerllaw Bwthyn yn mallu. Angen gosod rhwystr ar ei fin er mwyn cadw trafndiaeth draw</p> <p>MH – goleu gerllaw bont Penbompren wedi ei ddifod tra iddo gael ei drwsio.</p> <p>WT – diolch I'r Clerc am drefnu cinio Nadolig y Cyngor</p> <p>ED – angen halen yn y blychau</p> <p>DD – dŵr yn llifo ar draws yr heol o Gwmwernen lawr hyd at Maenllwyd. Pan yn rhewi, amhosib I drafndiaeth ei ddefnyddio. Angen troi'r llif oddi ar yr heol I'r clawdd ond nid oes ffôs I'w gymeryd.</p> <p>Dŵr yn llifo ar draws yr heol ar dro Pant y Dryw oherwydd gratin yn gorlifo. Heol llithrig pan ddaw rhew. Damwain wedi bod yno eisioes.</p> <p>Heol rhai llatheidi I fyny o Bancyn Glas yn llithro I'r nant. Angen annog trafndiaeth I gadw draw.</p> <p>DJ – dŵr yn pallu llifo I ffwrdd ar yr heol tuflaen I'r Neuadd</p>	
Gorffenodd y Cyfarfod	9.30	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
-------------------------	-------------------------

(Cadeirydd)

(Ysgriennydd)

Dyddiad : .....

Dyddiad: .....